**Beirniadaeth Cystadleuaeth 338 – Barddoniaeth bl.3 a 4**

**Beirniad: Lois Medi**

**Canlyniad**

1. **BLODEUWEDD**
2. **ISNAN**
3. **Y LLEWPART**

Cyflwynwyd 161 ymgais yng nghystadleuaeth barddoniaeth bl.3 a 4 eleni; nifer hynod addawol sy'n awgrymu bod diddordeb brwd mewn barddoni ymysg plant yng Nghymru heddiw.

Llunio cerdd ar y testun 'Lliwiau' oedd y dasg i'r beirdd ifainc, a braint oedd cael darllen y creadigaethau ddaeth i law. Yr hyn roeddwn yn chwilio amdano'n bennaf oedd creadigrwydd a gwreiddioldeb fyddai'n tanio dychymyg y darllenydd; cerdd ag iddi rythm a naws farddonol y gellid ei hadrodd yn rhwydd; a cherdd y byddwn i'n myfyrio ar ei chynnwys wedi imi ei darllen. Roedd fflach o greadigrwydd i'w ganfod ymhob cerdd, ond roedd rhai cerddi'n rhagori o safbwynt rhythm a chynnwys oedd yn aros gyda mi wedi'r darlleniad. O'r herwydd, gosodais y cerddi mewn tri dosbarth, a byddaf yn cynnig sylwadau am y ddwy gerdd ar bymtheg yr ydw i yn eu gosod yn y dosbarth cyntaf.

Archwilwyd y testun 'Lliwiau' mewn amryw ffyrdd, ond roedd y mwyafrif helaeth o gerddi ar ffurf cyfres o gyffelybiaethau neu gymariaethau â gwrthrychau neu ryfeddodau sydd o'n cwmpas bob dydd. Roedd enfys yn ganolbwynt i nifer o'r cerddi hefyd. Mae'r cerddi a osodais yn y dosbarth cyntaf yn mentro y tu hwnt i restru lliwiau ac yn ymrafael â'r thema mewn modd mwy annisgwyl a gwreiddiol.

O ran mesur, cerddi ar fydr ac odl oedd yn mynd â bryd y beirdd yn gyffredinol, er cafwyd ambell gerdd benrhydd a cherdd acrostig yn y gystadleuaeth hefyd. Byddwn yn argymell i'r holl gystadleuwyr sicrhau eu bod yn glynu wrth batrwm mydryddol ac/neu odl y maen nhw'n ei ddewis wrth farddoni; roedd ambell un yn llithro o'u dewis o batrwm o dro i dro

a hynny'n tarfu ar y gerdd orffenedig. Os am ddewis patrwm mydr ac/neu odl, gwell cadw'n driw iddo er mwyn sicrhau llif a rhythm drwy gydol y gerdd.

Cyn cyflwyno sylwadau ar y cerddi a gyrhaeddodd y dosbarth cyntaf, mae'n werth nodi y byddai hyd yn oed y cerddi ar y brig wedi elwa o gael eu prawfddarllen. Mae sicrhau fod cyn lleied o fân lithriadau â phosib yn eich gwaith, yn enwedig mewn cystadleuaeth genedlaethol, yn rhoi'r cyfle gorau posib iddo. Ystyriwch hyn fel arddangos eich cerdd yn ei dillad gorau i'r byd!

Dyma rannu ychydig eiriau am y ddwy gerdd ar bymtheg yr ydw i'n eu gosod yn y dosbarth cyntaf.

Bu ANTUR AUR HWYLIOG yn greadigol wrth wneud defnydd o liwiau coch, gwyn a gwyrdd i drafod y pethau rydym yn ymfalchïo ynddyn nhw fel Cymry, gan gyfeirio at ddigwyddiadau hanesyddol, diwylliant cerddorol Cymraeg a rhyfeddodau byd natur Cymru. Hoffais y strwythr clir a phendant a'r cwpled clo oedd yn cyfannu'r gerdd drwy uno'r lliwiau gyda chyfeiriad at Mistar Urdd.

Gwnaeth BEN DAVIES ddefnydd gwych o restru mewn trioedd i dynnu sylw at yr amrywiaeth o liwiau sydd o'n cwmpas o hyd, a hoffais y gymhariaeth gyferbyniol o oren gyda thân a Sali Mali ill dau. O bosib byddai cysylltu'r lliwiau mewn pennill ychwanegol wedi cynnig diweddglo mwy terfynol i'r gerdd hwyliog hon.

Myfyrio ar dristwch a diflastod byw mewn byd heb liwiau a wna CAR CYFLYM. Gwna ddefnydd effeithiol o gyffelybu ac roeddwn i wrth fy modd gyda'r neges glo sy'n atgoffa'r darllenydd o'r modd y gall lliwiau danio a bwydo ein creadigrwydd.

Cyflwyna CATH FACH syniad hyfryd o gathod bach yn profi'r weithred hudolus o weld lliwiau am y tro cyntaf un. Er bod llithriadau gyda'r gystrawen, mae'r defnydd o ansoddeiriau yn ganmoladwy a hoffais y modd hynod wreiddiol yr aeth i'r afael â'r testun. Dalia ati, gath fach!

Darlunio rhyw fath o freuddwyd sy'n mynd â'r bardd ar wibdaith o amgylch y byd i weld lliwiau o bob math a wna ENFYS O LIW. Mae'r bardd yn defnyddio iaith greadigol i greu delweddau byw a golygfeydd difyr. Mae'r gerdd yn cynnwys un o fy hoff linellau yn yr holl gystadleuaeth: 'pysgod sgleiniog yn rocio i rythm y cwrel' – am ddelwedd hyfryd sy'n cyfleu symudiad chwim y pysgod i'r dim! Ceir neges hyfryd am y modd y mae lliwiau yn ein tynnu ni i'r goleuni pan fo pethau'n teimlo'n anodd a thywyll.

Hoffais y ffordd y mae GLINDA yn defnyddio'r synhwyrau i gyfleu sut rydym yn profi lliwiau mewn gwahanol ffyrdd. Byddai strwythur y gerdd yn gryfach petai wedi ei rhannu'n fwy o benillion. Er hyn, gwneir defnydd pwrpasol o atalnodi wrth ddefnyddio ebychnodau i gyfleu cyffro a cheir personoli meistriolgar wrth sôn am y môr yn 'sibrwd ar y creigiau' – delwedd hyfryd dros ben.

Mae LLEWPART yn cyferbynnu'n effeithiol wrth gyfeirio at liwiau coch, gwyn a gwyrdd ar wahân, cyn eu cyfuno i sôn am lawenydd bod yn aelod o'r Urdd erbyn diwedd y gerdd. Mae'n trosi lliwiau yn deimladau mewn ffordd glyfar ac yn cynnig strwythur cryf sy'n sicrhau diweddglo effeithiol i'r gerdd.

Mae LOLIPOP Y GORLLEWIN yn dathlu'r modd y gall lliwiau gyfuno i greu mwy byth o liwiau gan gyflwyno syniad hyfryd i'r darllenydd o'r modd y maen nhw'n cefnogi ei gilydd. Er bod diffyg rhythm pendant i'r gerdd sy'n golygu ei bod braidd yn rhyddieithol ar brydiau, rwy'n hoffi'r modd y mae'r bardd yn siarad yn uniongyrchol gyda'r darllenydd. Mae syniad canolog y gerdd yn un gwreiddiol a hynny i'w ganmol.

MWNCI GWIRION yw'r unig fardd yn y gystadleuaeth i gyflwyno cerdd ar ffurf cwestiwn ac ateb, ac mae i'w ganmol am y dechneg greadigol hon sy'n cynnal diddordeb y darllenydd. Gwna ddefnydd da o ailadrodd er mwyn cyfleu rhyfeddod y lliwiau a phwysleisio'r ystod eang o wahanol liwiau sydd yn y byd.

Cyflwyna OLWYN ddarlun hyfryd o'r bardd yn paentio a thrawsnewid byd llwyd a llwm yn un lliwgar. Ceir yma neges o ddiolchgarwch am y byd a'r lliwiau sy'n ei greu yn lle mor

hardd i fyw ynddo a hoffais yn arw y defnydd o bersonoli wrth ddisgrifio 'yr afonydd glaswyrdd yn canu eu caneuon tawel'.

Atgof am fam yn cymharu lliwiau amrywiol i wrthrychau yn y byd a geir gan TWM TARW. Mae'r strwythur yn gryf a'r defnydd o ddeialog ac ailadrodd yn effeithiol. Byddai'n syniad i'r bardd gymryd gofal wrth geisio cynnal y patrwm odli drwy gydol y gerdd er mwyn sicrhau rhythm a dilyniant rhwydd.

Mae MIMI yn disgrifio byd natur drwy ganolbwyntio ar y lliwiau sydd i'w gweld ynddo. Hoffais y defnydd helaeth o ansoddeiriau a'r strwythur cylchol cadarn yn ogystal â'r defnydd effeithiol o gwpledi odledig yn y gerdd lawen hon.

Darlunia BWBW olygfa hyfryd o blentyn a'i fam yn dotio at olygfa o enfys dros eu pentref. Roedd synnwyr o naratif a llinyn storïol i'r gerdd yn cynnal diddordeb y darllenydd. At hynny, roedd y portread o'r llawenydd y gall rhywun ei deimlo wrth sylwi ar liwiau hardd y byd yn fendigedig. Dyma gerdd o werthfawrogiad am hud lliwiau sydd yn gyfanwaith swynol a thyner.

Defnyddio lliwiau i ddarlunio'r tymhorau a wna MERCH Y MYNYDD, sydd yn fodd cynnil a chreadigol o ymdrin â'r testun. Mae strwythur pendant y gerdd yn galluogi'r bardd i drafod y pedwar tymor yn gelfydd wrth ein tywys ni drwy'r lliwiau cyfnewidiol rydym yn eu profi yn ystod y flwyddyn. Mae personoli crefftus yma, e.e. 'mae'r gwynt llwyd yn sibrwd cyfrinach fach' a'r bardd yn llwyddo i greu delweddau barddonol a thyner. Byddai un pennill ychwanegol i glymu'r cyfan ynghyd wedi sicrhau gwedd fwy terfynol i'r gerdd, ond dalier ati, FERCH Y MYNYDD!

Cerdd llawn dop o hiwmor a darluniau dychmygus a gawn gan Y LLEWPART wrth i'r bardd ddisgrifio breuddwyd lle'r oedd popeth yn lliw gwahanol i'r arfer. Mae ôl meddwl ar y delweddau doniol a gyflwynir sydd yn siŵr o ddod â gwên i wyneb y darllenydd, e.e. 'Glas oedd lliw pob banana / a gwyrdd oedd lliw pob carw. / Coch oedd lliw pob dafad / a pinc oedd lliw pob tarw.' Dyma enghraifft o sut y gall patrwm mydryddol ddyrchafu'r syniadau a gyflwynir mewn cerdd; mae'r bardd yn cynnal y mydr tra'n cadw'r cynnwys yn

berthnasol ac addas i gyfleu'r neges. Byddai sicrhau odl glo wedi cynnig diweddglo cryfach, ond dyma gerdd ysgafn a chofiadwy.

Defnyddio lliwiau fel trosiad am deimladau a wna ISNAN mewn cerdd dyner. Gwna ddefnydd gwych o gyffelybu i greu darluniau byw sy'n cyfleu'r neges galonogol fod ein lliwiau a'n teimladau yn ein gwneud ni oll yn fodau unigryw ac arbennig: 'mae fy lliwiau weithiau'n cymysgu / dyna beth sy'n gwneud fi'n unigryw / un enfys fawr yn disgleirio pan rwy'n effro ac yn cysgu.' Byddai'r gerdd wedi elwa ar sylw manylach i'r atalnodi a glynu wrth y patrwm mydryddol yn y pennill clo er mwyn sicrhau terfyn cryfach. Serch hynny, dyma gerdd ddwys a myfyrgar sy'n cyfleu neges hyfryd a arhosodd yn fy meddwl wedi imi orffen ei darllen.

Nid yn annhebyg i Y LLEWPART, mae BLODEUWEDD yn darlunio breuddwyd a gafodd y bardd pan welodd y byd mewn lliwiau tra gwahanol i'r arfer. Diolch i'w strwythur cylchol, dyma gerdd greadigol a dychmygus ac iddi synnwyr cryf o naratif. Cyflwyna ddarluniau difyr i'r darllenydd o'r elfennau sydd ym mhob lliw, e.e. 'Du a melyn oedd y glaw / a gwyrddlas oedd yr heulwen'. Dyma gerdd sy'n cymell y darllenydd i ystyried gwedd mor wahanol fyddai i fywyd pob dydd pe bai'r lliwiau i gyd yn wahanol. Mae'n cynnig hiwmor a rhyfeddod i'r darllenydd tra'n cynnal y patrwm mydr ac odl drwyddi draw. Bu'n bleser i'w darllen a hyfryd fyddai ei chlywed yn cael ei llefaru ar lwyfan yr Urdd rhyw ddydd!

Cyflwynodd BWBW, MERCH Y MYNYDD, Y LLEWPART, ISNAN a BLODEUWEDD oll gerddi o safon teilyngdod, a gorchwyl anodd i feirniad oedd pennu enillydd. Y LLEWPART sy'n cael y drydedd wobr eleni. Dwy gerdd gwbl wrthgyferbyniol yn cynnig cynnwys gafaelgar a chrefftus sydd ar y brig, ond y tro hwn daw ISNAN yn ail agos iawn a BLODEUWEDD yn fuddugol. Llongyfarchiadau gwresog – a diolch i bob un am gystadlu. Da chi, daliwch ati i farddoni!